

RYDYM YN **recriwtio**

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





## Gweinyddwr Hamdden

### Gwybodaeth Hanfodol

Cyflog : £24,404 - £24,790 y flwyddyn

Oriau : Llawn amser (37 awr yr wythnos)

Contract: Parhaol

Lleoliad: Hamdden y Rhyl

### Am y Swydd

Fel Cynorthwydd Hamdden, byddwch yn sicrhau bod gan ein cwsmeriaid fynediad at gyfleusterau glân, diogel a chroesawgar.

Mae achub bywyd yn rhan greiddiol o'r rôl, felly bydd angen i chi roi sylw manwl i bawb sy'n defnyddio'r pwll, i wneud yn siŵr bod pawb yn ddiogel bob amser ac yn dilyn rheolau'r pwll.

Rydym yn ymfalchïo yn ein cyfleusterau a'r amgylchedd yr ydym yn ei gynnig i'n cwsmeriaid, felly byddem yn disgwyl i chi ymfalchïo yn y safle, gan sicrhau ei fod yn lân, yn daclus ac yn ddiogel i bawb ei ddefnyddio bob amser.

Mae DLL ar agor 7 diwrnod yr wythnos, felly byddwch yn dilyn patrwm sifft sy'n cynnwys sifftiau yn ystod y dydd, gyda'r nos ac ar benwythnosau.

*\*Mae'r dogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English\**





## Gweinyddwr Hamdden

### Amdanoch Chi

Rydym yn edrych am unigolyn hyderus a chyfeillgar, gyda sgiliau pobl rhagorol a sylw gwych i fanylion.

Rydym yn hoffi datblygu ein staff, felly mae'r awydd i ddysgu a datblygu yn hanfodol ar gyfer y rôl hon. Byddwn yn eich cefnogi bob cam o'r ffordd gyda hyfforddiant yn y swydd.

Bydd angen i chi feddu ar eich cymhwyster NPLQ, ac yn ddelfrydol bydd gennych rywfaint o brofiad o weithio gyda chwsmeriaid.

Mae ein cwsmeriaid yn hynod bwysig i ni, felly rydym angen rhywun sy'n gallu gwneud i bobl deimlo'n gyfforddus, ac sydd ag awydd i wneud yn siŵr bod pawb yn cael profiad gwych bob amser.

Mae'n bwysig iawn bod pawb yn ddiogel bob amser, felly bydd angen i chi fod yn hyderus wrth gymryd camau i atal unrhyw ymddygiad a allai fod yn risg i eraill, mewn modd cyfeillgar ond cadarn.

Os ydych chi'n berson cyfeillgar, brwdfrydig, gydag awydd gwirioneddol i helpu eraill, ac yn dymuno gweithio mewn Cwmni cyflym, hynod lwyddiannus, yna gallai hwn fod yn ffit perffaith i chi.



## Gweinyddwr Hamdden

### Amdanom ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

### Ein Gwerthoedd



Uchelgais a Thwf



Ymddiriedolaeth ac Uniondeb



Rhagoriaeth a Gwydnwch



Balchder ac Angerdd



## Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blynyddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiau teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

**Lleoliad:** Hamdden y Rhyl, Grange Road, Rhyl, LL18 4BY

**Dyddiad Cau:** 03.02.25

**Gwnewch gais drwy:** eostio eich CV i [Pobl@hamddensirddinbych.co.uk](mailto:Pobl@hamddensirddinbych.co.uk)